



**Teitl y Cyfarfod:** Panel Cyswllt Afon Dyfrdwy

---

**Dyddiad a  
Lleoliad y  
Cyfarfod:** 17 Mawrth 2016

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Gaer, Fferm Bickley Hall,  
Swydd Gaer

---

## Yn bresennol

Sector	Enw a Sefydliad
Cyfoeth Naturiol Cymru	MOIRA REYNOLDS Cadeirydd
Cyfoeth Naturiol Cymru	CERI JONES Rheolwr Rhaglen Basn Afon
Cyfoeth Naturiol Cymru	HELEN MILLBAND Uwch Swyddog Cynllunio Amgylcheddol
Cyfoeth Naturiol Cymru	RICHARD MAY Swyddog Cadwraeth
Asiantaeth yr Amgylchedd	JO HOLDEN Swyddog Dalgylch
Asiantaeth yr Amgylchedd	Dave Turnbull Prif Swyddog Cyfrifon
Corff Anllywodraethol Amgylcheddol (Cymru)	ADRIAN JONES Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru
Pysgodfeydd	HOWARD STEVENS Pysgodfeydd
Pysgodfeydd	KEN O'HARA AR GYFER RICHARD LUCAS Ymddiriedolaeth Afonydd Dyfrdwy
Cwmnïau Dŵr (Lloegr)	KATE SNOW United Utilities
Cwmnïau Dŵr (Cymru)	EVE READ Dŵr Cymru
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	PAUL SOUTHALL Ymgynghorydd Amgylcheddol
Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Swydd Gaer	SARAH BENNET A CHRIS MEREDITH Rheolwr Cadwraeth a Swyddog Cadwraeth
Llywodraeth Cymru	JAMES DOWLING Cangen Dŵr

Derbyniwyd **ymddiheuriadau** gan: Richard Lucas, Rhian Thomas, Lynda Bigland, Bethan Beech, Kevin Owen, Rob Arden a Dennis Pugh.

## **1. Croeso, cofnodion a chamau gweithredu (Papur 1)**

Croesawodd Moira Reynolds bawb ac amlinellodd yr agenda ar gyfer y diwrnod, gan gynnwys y briff iechyd a diogelwch.

Gwnaeth y Panel Cyswllt gynnal adolygiad o'r cofnodion a'r camau gweithredu a nodwyd ar 4 Tachwedd 2015, ac roeddent yn cytuno eu bod yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod. Nodwyd y camau gweithredu canlynol fel rhai parhaus:

**CAM GWEITHREDU: Ceri Jones a Helen Millband i ystyried sut y gellir cynrychioli Dyffryn Dyfrdwy Uchaf ochr yn ochr â Chynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy a Chynlluniau Gweithredu mewn Partneriaeth y Dalgylch ar gyfer Afon Dyfrdwy Lanwol a Chanol Afon Dyfrdwy.**

**CAM GWEITHREDU: Jo Holden i ofyn i Goleg Reaseheath ddod i roi cyflwyniad i Banel Cyswllt Afon Dyfrdwy**

**CAM GWEITHREDU: Ceri Jones – cymryd camau dilynol ac ystyried awgrymiadau'r Panel Cyswllt ar amaethyddiaeth, a'u trafod yng nghyfarfod nesaf y Panel Cyswllt**

**CAM GWEITHREDU: Moira Reynolds i siarad â'r Rheolwr Partneriaeth**

**CAM GWEITHREDU: Ceri Jones i ystyried cymryd swydd cynrychiolydd y sector hamdden**

## **2. Cynllun Rheoli Basn Afon 2015–2021**

### **2.1 Diweddariad (Papur 2 a 3)**

Gwnaeth Ceri Jones roi diweddariad ar ôl cyhoeddi Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy ym mis Chwefror (Papur 2). Roedd hwn yn cynnwys trosolwg o'r Rhaglen Gyflenwi, Rhaglen o Fesurau, a rhaglen o fesurau mwy lleol. Roedd y drafodaeth yn cynnwys adolygiad o gylch gorchwyl y Panel Cyswllt (Papur 3) gan fod y ffocws bellach yn symud oddi wrth gynllunio i gyflawni, ac roedd diweddariad ar y gwaith Dosbarthiad Pysgod y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a oedd wedi cael ei drafod yn ystod cyfarfod blaenorol y Panel Cyswllt.

Cytunodd y panel fod angen i'r ffocws fod ar ddarparu a mynegwyd rhai pryderon ynglŷn ag amseriad rhaglenni allweddol, yn enwedig os oes oediad o ran darpariaeth y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr o ran sicrhau cydbwysedd â'r Rhaglen Diwydiant Dŵr ac os oes cyfleoedd wedi'u colli o bosibl.

Gwnaeth y panel gais i gylchredeg copi o'r Canllawiau i Awdurdodau Lleol ac i roi adborth yn dilyn y gwaith gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (**I'w weithredu: CJ**)

Trafodwyd gwelliannau mewn cynefinoedd, gan gynnwys gwaith Astudiaeth y Bala, ac roedd cam gweithredu i ddarparu mwy o fanylion ynglŷn â'r gwaith hwn trwy Bob Edwards a Dylan Williams, a bydd Moira Reynolds yn mynd ar drywydd hyn. **(I'w weithredu: MR)**

Awgrymwyd y dylem ni ystyried y gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r ail gylchred, a fydd yn cael ei hadolygu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Dylai'r gwaith hwn hefyd werthuso'r gwersi a ddysgwyd o ganlyniad i'r rhaglenni monitro a dosbarthiad presennol. Bydd hyn yn cael ei rannu gyda'r panel yn y cyfarfod nesaf. **(I'w weithredu: CJ)**

Cytunwyd bod angen i ni ddatblygu cyfres bendant o gamau gweithredu o ran pwy sy'n gwneud beth, ble, ac erbyn pryd, ac y dylem hefyd fod yn defnyddio'r rhaglenni monitro a dosbarthiad cychwynnol i ddangos y newidiadau a'r gwelliannau sydd wedi'u gwneud. **(I'w weithredu: CJ)**

Gwnaeth Ceri Jones roi diweddariad byr ynglŷn â'r dosbarthiad, yn enwedig o ran Dosbarthiad Pysgod y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Ar hyn o bryd, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn adolygu'r dull gweithredu a'r amserlenni ar gyfer rhaglen fonitro a dosbarthiad y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn gyffredinol, ac unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd y manylion yn cael eu rhannu gyda'r panel **(I'w weithredu: CJ a DT)**. Mewn perthynas â Dosbarthiad Pysgod y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, gwnaeth Ceri Jones drafod y dosbarthiad dros dro ar gyfer 2016 yng Nghymru a Lloegr sy'n cael ei arwain gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Dywedodd Ceri y byddwn yn parhau i weithio gydag Afonydd Cymru (Frank Jones) yng Nghymru wrth ystyried y wybodaeth hon a'r dewisiadau sydd ar gael ar gyfer gwella'r dull o weithredu Dosbarthiad Pysgod y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae hyn yn bryder arbennig yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru **(I'w weithredu: CJ)**.

Trafodwyd yr awgrymiadau ar gyfer ystyried Ardal Basn Afon Dyfrdwy ar gyfer y dyfodol ac roeddent yn cynnwys:

- Cyllido a'r swyddogaeth fydd gan y Panel Cyswllt
- Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd, yn arbennig lle mae creu a diogelu cynefinoedd yn cyd-fynd â'r Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd
- Rhoi diweddariad ar garthu a beth mae hyn yn ei olygu i Ardal Basn Afon Dyfrdwy
- Gwaith Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

## 2.2 Diweddariad Llywodraeth Cymru

Gwnaeth James Dowling roi diweddariad ar lafar, a dechreuodd gyda'r ddau faes allweddol ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r cysylltiad gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr:

- 1) Rhesymau dros fethu - prosiect mwyngloddiau metel. Mae'r Awdurdod Glo wedi casglu gwybodaeth o'r gwahanol ffynonellau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ac yn adolygu hon gyda'r bwriad o gasglu rhestr raddedig o 13 o safleoedd mwyngloddiau metel lle gallai gwaith adfer ddigwydd ar dri neu bedwar safle yn ystod y ddwy i dair blynedd nesaf. Bydd y tri neu bedwar safle uchaf yn cael eu hargymell i'w datblygu, yn amodol ar gyllid. Gwnaeth Carl Banton gynnig rhannu methodoleg y safleoedd a oedd yn cael eu hystyried gyda'r panel. Rhagwelir y bydd y safleoedd hyn yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.
- 2) Bydd Bwrdd Rhaglen Llygredd Gwasgaredig yn cael ei sefydlu i ddatblygu atebion er mwyn gwella ac ategu'r gwaith o gyflawni'r prosiectau lleol. Bydd y bwrdd yn helpu i gydlynu gweithgareddau ac yn cyfrannu at wneud gwelliannau.

Bydd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn archwilio gwell ffyrdd o weithio gyda grwpiau ffermio. Mae hyn yn cynnwys cyfarfod â Chyswllt Ffermio i drafod eu rhaglen waith a'r cyfleoedd i weithio gyda nhw. Byddant hefyd yn ystyried fframweithiau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol - mae ADAS ar hyn o bryd yn ystyried y ddeddfwriaeth bresennol.

### 3. Darparu

#### 3.1 Rhaglen Genedlaethol (Papur 4)

Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon wedi eu cyhoeddi ac mae gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r camau gweithredu ar gael yma

<https://naturalresources.wales/water/quality/river-basin-management-plans-published/?lang=cy>

Mae canlyniadau'r dosbarthiad diweddaraf a'r rhaglen o fesurau ar gael yn Arsylwi Dyfroedd Cymru

<http://waterwatchwales.naturalresourceswales.gov.uk/cy/>

Mae Ceri Jones a Dave Turnbull wedi rhoi trosolwg o'r Rhaglen Genedlaethol fel y nodir yn y papur ategol.

Mae angen olrhain a gwerthuso'r gwaith o gyflenwi, a dywedodd y panel hefyd fod angen i ni wybod pa gamau gweithredu sy'n cael eu hariannu a pha rai sydd ddim yn cael eu hariannu. Dylid cynnwys y wybodaeth hon wrth olrhain a gwerthuso'r Rhaglen Gyflenwi **(I'w weithredu: CJ)**.

Gwnaeth Dave rannu copi o ddelwedd graffig Asiantaeth yr Amgylchedd er mwyn helpu gyda chyfathrebu. Bydd copi ohoni'n cael ei ddsbarthu gyda'r cofnodion hefyd. **(I'w weithredu: CJ)**

#### 3.2 Rhaglen Leol

Rhoddodd Helen Millband a Jo Holden gyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar y gwaith o gyflenwi'n lleol yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy.

Yn lleol, bydd ffocws hefyd ar atal dirywiad yn rhan o'r gwaith bob dydd, ac ar weithio i fynd i'r afael â chyrrff dŵr a dalgylchoedd mwy cymhleth. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â digwyddiadau, rhoi cyngor, rhoi caniatâd, trwyddedau cwmpo coed, a chynllunio gweithgareddau. Er mwyn cyflenwi'r gwaith hwn, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws dalgylchoedd. Yn ogystal â gwaith 'Catchment Based Approach' trwy raglen bartneriaeth a ariennir gan DEFRA, yng Nghymru mae'r gwaith hwn hefyd yn cael ei wneud ar y cyd â Threialon Cynllunio Cyfoeth Naturiol Cymru. Gofynnodd Howard am eglurder ynghylch yr hyn sydd wedi'i gynllunio ar gyfer Afon Alun a'r hyn y gall rheolwyr pysgodfeydd ei wneud. Bydd Helen a Howard yn mynd ar drywydd hyn. **(I'w weithredu: HM, HS)**

Gwnaeth Jo Holden roi diweddariad ynglŷn â'r camau gweithredu ac awgrymodd y gallem ddysgu oddi wrth yr arferion gorau a rennir trwy'r wefan 'Catchment Based Approach' (<http://www.catchmentbasedapproach.org/>) a rhoi hyn ar waith yn Afon Dyfrdwy. Anogwyd aelodau'r panel i edrych ar y wefan hon **(I'w weithredu: Pawb)**.

Hefyd rhoddodd Jo ragor o fanylion ynglŷn â blaenoriaethau Asiantaeth yr Amgylchedd, sy'n cynnwys dim dirywiad a mapio prosiectau a chyrrff dŵr lle mae camau gweithredu wedi'u cadarnhau. Mae'r manylion hyn yn cael eu cadw ar daenlen y gellir ei hychwanegu i'r rhaglen ar draws Afon Dyfrdwy fel bod modd i bartneriaid gyfeirio/cysylltu eu gwaith pan fo cyfleoedd yn caniatáu.

Gwnaeth y drafodaeth wedyn ganolbwyntio ar Brosiectau Blaenoriaeth gyda Chymorth Grant y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr y mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi bod yn gweithio arnynt gyda phartneriaid. Gwnaeth y panel gytuno ar y safle canlynol ar sail y wybodaeth a rannwyd:

- 1) Nant Alford
- 2) Wych a Worthenbury
- 3) Love My Estuary

Bydd hyn yn cael ei gyflwyno ar gyfer 2016/17 gan Banel Cyswllt Ardal Basn Afon Dyfrdwy.

Partneriaeth Afon Dyfrdwy Lanwol - gwnaeth Sarah Bennet roi diweddariad. Mae'r cynllun gweithredu ar waith ac mae'n cynnwys cyfres o brosiectau. Yn 2016/17, byddent yn hoffi datblygu prosiect trawsffiniol gan fod hyn yn atal yn Afon Dyfrdwy Lanwol ac mae ei angen i ddatblygu gwaith y bartneriaeth. Yna, rhoddodd Chris Meredith gyflwyniad ar y prosiect 'Love My Estuary'. Yn sgil y prosiect, maent wedi cerdded 78% o'r cyrsiau dŵr, wedi canfod 293 o broblemau posibl a 77 o lwybrau llygredd gweithredol, ac wedi gwneud 100 awr o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae ffynonellau blaenoriaeth wedi'u canfod, megis ffwng

carthion, sathru a throedio da byw, tanciau septig, torllwyth carthion, ac olew yn mynd i'r nant. Mae'r prosiect wedi cynhyrchu Pecyn Atal Llygredd. Nid yw'r pecyn hwn wedi'i frandio a gall partneriaethau eraill ei ddefnyddio. Anogwyd aelodau'r panel i ddefnyddio'r pecyn hwn. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â sut y gellid cael mynediad i dir yn rhan o'r prosiect, a bydd Chris yn rhannu'r llythyr a anfonwyd yn rhan o'r prosiect at y panel **(I'w weithredu: CJ)**.

Partneriaeth Canol Afon Dyfrdwy - gwnaeth Ken O'Hara roi diweddariad. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn ymweld â ffermydd ac yn gweithio ar Brosiect Llygredd Gwasgaredig Gwledig Nant Worthenbury a Nant Wych. Mae gwaith arall wedi bod yn barhaus o ran Cynllun Adfer Afon Dyfrdwy (Afon Ceiriog), gwaith cydbartneriaeth Cyfoeth Naturiol Cymru, Prosiect Llygredd Gwasgaredig Gwledig Nant Alford, a Phrosiect Llygredd Gwasgaredig a Chynefinoedd Afon Alun, lle mae arolwg i fod i ddechrau ym mis Ebrill 2016.

Dŵr Cymru - rhoddodd Eve Read gyflwyniad ar Raglen Amgylcheddol Genedlaethol Ansawdd Dŵr Dŵr Cymru. Yn AMP6, bydd Dŵr Cymru yn cynnal archwiliadau, cynyddu monitro ac yn gwella asedau i sicrhau bod cwmnïau dŵr yn bodloni targedau Ewropeaidd a chenedlaethol mewn perthynas â gwella dŵr.

United Utilities - rhoddodd Kate Snow gyflwyniad ar waith Dalgylch Dyfrdwy. Mae pedwar ymgynghorydd dalgylch yn gweithio bellach ac yn cael eu hariannu hyd 2020. Maent yn darparu gwiriadau iechyd am ddim i ffermydd. Trwy weithio gydag ADAS, mae hyn yn cynnwys ystyried seilwaith y fferm, defnyddio pelenni malwod, profion MOT ar gyfer chwistrellwyr a hyfforddiant. Mae dalwyr cemegion yn cael eu defnyddio i fonitro'r amgylchedd.

Maent wedi wynebu heriau o ran cael manylion cyswllt ar gyfer ffermwyr. Mae'n bosib y bydd dull 'Love My Estuary' yn helpu gyda hyn a bydd Kate yn edrych ar y llythyr a ddefnyddiwyd. Dywedodd Adrian Jones y gallent ychwanegu rhywfaint o arian i'r gwaith ar Afon Alun, felly bydd Kate ac Adrian yn mynd ar drywydd hyn. **(I'w weithredu: KS ac AJ)**

Ymddiriedolaeth Genedlaethol - Rhoddodd Paul Southall gyflwyniad ar eu gwaith a gwneud cysylltiadau â blaenoriaethau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr trwy fapio perchnogaeth yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol gyda Statws y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr trwy ddefnyddio system gwybodaeth ddaearyddol. Mae tair ardal waith wedi'u nodi:

- 1) Yr Eryri
- 2) Tir isel tir fferm
- 3) Comin Abergwesyn

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd hefyd yn awyddus i ddilyn y gwaith hwn gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. **(I'w weithredu: PS a JH)**.

Nid oedd digon o amser i gael trafodaeth bellach ar ddarpariaeth leol a bydd hyn yn cael ei ddilyn dros y chwe mis nesaf i gyfrannu at y rhaglen gyflenwi yn Ardal Basn Afon Dyfrdwy.

**4. Dyddiad y cyfarfod nesaf** - i'w gadarnhau. Mae cyfarfod dros y ffôn i'w drefnu i drafod cyflenwi os oes angen.

**Terfynwyd am 1.30pm**

**Panel Cyswilt Afon Dyfrdwy – Aelodaeth 2016**

Sector	Sefydliad	Enw
Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol	Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru	Adrian Jones
Busnes a Diwydiant	Kronospan Ltd	Dennis Pugh
Awdurdodau Lleol – Cymru		GWAG
Cyrff Anllywodraethol Amgylcheddol/Pysgodfeydd/Pysgota â Gwialen	Ymddiriedolaeth Afonydd Dyfrdwy a Phartneriaeth Canol Afon Dyfrdwy	Richard Lukas
Pysgodfeydd	Grŵp Cyngori Pysgodfeydd Ardal Leol	Howard Stevens
Porthladdoedd		GWAG
Ffermio – Cymru	NFU Cymru	Kevin Owen
Cyfoeth Naturiol Cymru – Cynefinoedd	Cyfoeth Naturiol Cymru	Bethan Beech
Cwmnïau Dŵr – Cymru	Dŵr Cymru	Paul Henderson
Defnyddwyr Dŵr	Cyngor Prynwyr Dŵr	Bob Gilchrist (a chopi i Lia Moutselou)
Cwmnïau Dŵr – Lloegr	United Utilities	Kate Snow
Natural England	Natural England	Rob Arden

Awdurdodau Lleol – Lloegr	Asiantaeth yr Amgylchedd	GWAG
Asiantaeth yr Amgylchedd	Asiantaeth yr Amgylchedd	Jim Ratcliffe neu Dave Turnbull
Asiantaeth yr Amgylchedd	Partneriaethau Dalgylch	Jo Holden
Busnes a Diwydiant	Busnesau Bach a Chanolig	GWAG
Rheolaeth Tir	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol	Paul Southall
Hamdden		GWAG
Llywodraeth Cymru	Llywodraeth Cymru	James Dowling